



CANLLAWIAU CYWERTHEDD GRADD B TGAU SAESNEG A MATHEMATEG I GAEL MYNEDIAD I HYFFORDDIANT AC ADDYSG GYCHWYNNOL ATHRAWON YNG NGHYMRU

Cytunodd gweithgor staff derbyniadau a staff academaidd Cymru gyfan ar gynnwys y papur hwn i sicrhau bod dull cyson o weithredu ledled Cymru ar gyfer y sawl sy'n gwneud cais am le ar gwrs Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA). Adolygir cynnwys y papur hwn yn flynyddol.

Bellach, ar gyfer pob darpariaeth HAGA yng Nghymru, mae angen o leiaf radd B, neu'r hyn sy'n gyfwerth â hynny, mewn Saesneg iaith a mathemateg ar lefel TGAU er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am le ar gwrs HAGA. I gael lle ar gwrs HAGA cynradd, mae angen o leiaf radd C mewn gwyddoniaeth hefyd.

Yn dilyn newidiadau diweddar i gymwysterau TGAU, caiff gradd 5 yn y TGAU newydd yn Lloegr (o 2017 ymlaen) ei derbyn fel bod yn gyfwerth â gradd B. Derbynnir naill ai gradd B mewn TGAU mathemateg neu rifedd a ddyfernir yng Nghymru o 2017 ymlaen.

Penderfynir a yw ymgeisydd yn addas i gael cyfweiliad am le ar gwrs HAGA yn ôl disgrisiwn y darparwr HAGA a bydd y penderfyniad yn seiliedig ar broffil cyffredinol yr ymgeisydd.

Nodiadau

- Nid yw cymwysterau sgiliau allweddol lefel 2 a sgiliau hanfodol mewn cymhwysio rhif ac mewn cyfathrebu'n ddigonol i gwrdd ag anghenion mynediad at HAGA.
- Ni fydd TAU Gradd 1 mewn Saesneg neu fathemateg yn dderbyniol fel cymhwyster sy'n gyfwerth â TGAU gradd B.
- Nid yw TGAU gradd B mewn ystadegau yn gymhwyster cyfwerth derbyniol.
- Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth o gymwysterau cyfwerth gysylltu â sefydliadau unigol am gyngor.
- Gwiriwch gyda sefydliadau unigol i sicrhau bod cymwysterau cyfwerth yn dderbyniol.

Cymwysterau tramor cyfwerth

- Mae'r Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol ar gyfer Cydnabyddiaeth Academaidd (NARIC), yn darparu arweiniad ynglŷn â chywerthedd cymhwyster tramor â safon cymwysterau penodol yn y Deyrnas Unedig, ond mae penderfyniadau ynglŷn ag addasrwydd ymgeiswyr i gael lle ar gysiau HAGA yn parhau i gael eu gwneud yn ôl disgrisiwn y darparwr HAGA.
- Mae'n ofynnol bod ymgeiswyr yn gallu dangos bod ganddynt gymwysterau cyfwerth ar lefel gradd B mewn TGAU Saesneg iaith a mathemateg.

Dyma restr o gymwysterau sy'n gyfwerth â graddau B mewn Saesneg iaith a mathemateg. Canllaw yn unig yw'r rhestr a roddir ac nid rhestr gyflawn. Gwaelodlin o ran disgwyliadau yw'r cymwysterau canlynol y gall sefydliadau eu hystyried fel isafswm o ran gofynion mynediad sy'n gyfwerth â gradd B mewn TGAU Saesneg iaith a mathemateg.

Saesneg

Cyflawniad	Arweiniad ar gywerthedd gradd B mewn TGAU
Access	15 credyd gyda lleiafswm o 3 chredyd ar lefel 3 o fewn unedau Saesneg (Agored Cymru) <i>*Dylid ymgynghori â sefydliadau unigol.</i>
Tystysgrif Addysg Gyffredinol (TAG) Lefel O	Gradd B neu uwch mewn Saesneg iaith neu gyfwerth (er enghraifft cyflawniad gradd 1-4 cyn yr 1970au).
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) Rhyngwladol / Lefel 2 Arholiadau Rhyngwladol Caergrawnt	Gradd B neu uwch mewn Saesneg iaith
A2	Gradd E neu uwch mewn A2 Saesneg iaith (ond nid llwyddiant lefel O wrth sefyll arholiad lefel A2).
Uwch Gyfrannol	Gradd C neu uwch mewn AS Saesneg iaith.
Tystysgrif Addysg Uwch yr Alban	Gradd B neu uwch yng Nghenedlaethol 5, neu radd C neu uwch yn Highers yr Alban, neu radd E yn Advanced Highers yr Alban. O 1986 ymlaen, gradd 2 neu uwch yng ngradd safonol Tystysgrif Addysg yr Alban. Hyd 1985, B neu uwch yng ngradd gyffredin Tystysgrif Addysg yr Alban. Gradd B neu uwch yn nhystysgrif astudiaethau'r chweched flwyddyn mewn Saesneg.
Tystysgrif Gadael yn Iwerddon	Hyd at 2017, gradd B neu uwch (cyffredin) neu radd C neu uwch (uwch) yn y Dystysgrif Gadael. O 2017 ymlaen, O3 neu uwch (cyffredin) neu H4 neu uwch (uwch) yn y Dystysgrif Gadael.
Y Brifysgol Agored	Llwyddiant ar fodiwl lefel 1, 2, neu 3 (isafswm o 30 credyd) sy'n rhagddodi gyda'r llythyren A, D, B neu E.
Y Fagloriaeth Ryngwladol	Lefel uwch neu gyfrannol mewn Saesneg iaith ar o leiaf gradd 3. Level uwch mewn Saesneg A: iaith a Llenyddiaeth ar o leiaf gradd 3
Y Fagloriaeth Ewropeaidd	Llwyddo (gradd 6 o leiaf) mewn Saesneg fel iaith gyntaf neu Saesneg fel iaith estron. Llwyddo (Gradd 6 o leiaf) mewn Saesneg iaith (iaith gyntaf).
System Profion Rhyngwladol Saesneg Iaith (IELTS)	Sgôr band 7 neu uwch ym mhob elfen o'r prawf IELTS 'academaidd'.
BTEC	Pearson BTEC (QCF)/OCR/NQF – Diploma Cyntaf, Diploma Cenedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch gan ddibynnu ar y lefel astudio a'r cyflawniad.
Tystysgrif Addysg Uwch neu gredydau prifysgol	Tystysgrif cyrhaeddiad mewn Saesneg ar lefel 4 neu uwch (isafswm o 20 credyd). Dim ond ystyried pan ynghyd ag asafswm gradd D mewn TGAU mewn Saesneg iaith.

Mathemateg

Cyflawniad	Arweiniad ar gywerthedd Gradd B mewn TGAU
Access	15 credyd gyda lleiafswm o 3 chredyd ar lefel 3 o fewn unedau mathemategol (Agored Cymru) <i>*Dylid ymgynghori â sefydliadau unigol.</i>
Tystysgrif Addysg Gyffredinol (TAG) Lefel O	Gradd B neu uwch mewn mathemateg neu bwnc sydd â'r gair mathemateg yn y teitl (er enghraifft mathemateg fasnachol, mathemateg dechnegol) neu gyfwerth (er enghraifft cyflawniad gradd 1-4 cyn yr 1970au).
Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) Rhyngwladol / Lefel 2 Arholiadau Rhyngwladol Caergrawnt	Gradd B neu uwch mewn mathemateg.
A2	Gradd E neu uwch mewn mathemateg ar lefel A2 neu unrhyw bwnc ar lefel A2 gyda'r gair mathemateg yn y teitl. A2 mewn ystadegau neu fecaneg (ond nid llwyddiant lefel O wrth sefyll arholiad lefel A2).
Uwch Gyfrannol	Gradd C neu uwch ar lefel Uwch Gyfrannol mewn mathemateg, mecaneg, ystadegau, ystadegau ychwanegol neu fathemateg bur.
Tystysgrif Addysg Uwch yr Alban	Gradd B neu uwch yng Nghenedlaethol 5, neu radd C neu uwch yn Highers yr Alban, neu radd E yn Advanced Highers yr Alban. O 1986 ymlaen, gradd 2 neu uwch yng ngradd safonol Tystysgrif Addysg yr Alban. Hyd 1985, B neu uwch yng ngradd gyffredin Tystysgrif Addysg yr Alban. Gradd B neu uwch yn nhystysgrif astudiaethau'r chweched flwyddyn mewn Saesneg.
Tystysgrif Gadael yn Iwerddon	Hyd at 2017, gradd B neu uwch (cyffredin) neu radd C neu uwch (uwch) yn y Dystysgrif Gadael. O 2017 ymlaen, O3 neu uwch (cyffredin) neu H4 neu uwch (uwch) yn y Dystysgrif Gadael.
Y Brifysgol Agored	Llwyddiant ar fodiwl lefel 1, 2, neu 3 (isafswm o 30 credyd) sy'n rhagddodi gyda'r llythyren M, S neu T.
Y Fagloriaeth Ryngwladol	Lefel uwch neu gyfrannol mewn mathemateg ar o leiaf gradd 3.
Y Fagloriaeth Ewropeaidd	Llwyddo (gradd 6 o leiaf) mewn mathemateg.
BTEC	Pearson BTEC (QCF)/OCR/NQF – Diploma Cyntaf, Diploma Cenedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch gan ddibynnu ar y lefel astudio a'r cyflawniad.
Tystysgrif Addysg Uwch neu gredydau prifysgol	Tystysgrif cyrhaeddiad mewn mathemateg ar lefel 4 neu uwch (isafswm o 20 credyd). Dim ond ystyried pan ynghyd ag asafswm gradd D mewn TGAU mewn Mathemateg.